

ROBERTS, SAMUEL ('S.R.'; 1800 - 1885), gweinidog gyda'r Annibynwyr, golygydd, diwygiwr Radicalaidd

Enw: Samuel Roberts

Ffugenw: S.r.

Dyddiad geni: 1800

Dyddiad marw: 1885

Rhiant: Mary Roberts (née Breese)

Rhiant: John Roberts

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, golygydd, diwygiwr Radicalaidd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Robert Ivor Parry

Ganwyd 6 Mawrth 1800, mab hynaf **John** a Mary Roberts (gynt Breese), Llanbrynmair, lle'r oedd ei dad yn weinidog Annibynnol. Derbyniodd ei addysg fore yn yr ysgol leol a gedwid gan ei dad, ac yna yn Amwythig, 1810-12. Hawlir mai ef oedd un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i ddysgu llaw-fer. Yn 1819 aeth fel ymgeisydd am y weinidogaeth i'r academi a gedwid yn Llanfyllin, ond a symudwyd yn fuan i'r Drefnewydd dan **George Lewis**. Ar 15 Awst 1827 ordeiniwyd ef yn gyd-weinidog â'i dad yn Llanbrynmair. Daeth i'r amlwg yn fuan fel pregethwr, fel gohebydd mynych i'r Wasg, ac fel cystadleuydd eiddgar mewn eisteddfodau. Yn 1830 cyhoeddodd gyfrol fechan o gerddi, yn cynnwys 'Cwynion Yamba' - cerdd yn dinoethi caethwasiaeth, a pharhaodd ar hyd ei oes i weithio dros ryddhau'r caethion. Anfonodd i eisteddfod Biwmares (1832) draethawd ar amaethyddiaeth, yn dadlau o blaid masnach rydd, ond colli a wnaeth; ac o hynny ymlaen troes i bledio yn y Wasg dros ddiwygiadau cymdeithasol, yn fwy nag i farddoni a chystadlu. Wedi marw ei dad yn 1834, parhaodd 'S.R.' yn weinidog yr Hen Gapel, Llanbrynmair, gyda chymorth ei frawd 'J.R.', nes i hwnnw symud i Ruthyn yn 1848. Ei frawd ieuengaf '**Gruffydd Rhisiart**' a ofalai am fferm y Diosg, lle buasai ei deulu yn denantiaid er 1806. Yr oedd diddordeb 'S.R.' mewn amaethyddiaeth, felly, yn bersonol ac ymarferol. Cafodd ei dad y profiad chwerw o wario £700 mewn saith mlynedd ar wella fferm y Diosg, ac yna gael y rhent wedi ei ddyblu; a hyn yn ddiamau a gyfrif am wrthwynebiad cyson 'S.R.' i landlordiaeth a threth y degwm. Yr oedd yn gefnogydd brwd hefyd i'r Anti Corn Law League. Yr oedd yn flaenllaw ei syniadau am amaethyddiaeth wyddonol a iechydiaeth y parthau gwledig. Dadleuodd o blaid cael rheilffordd drwy Sir Drefaldwyn (a orffennwyd yn 1861) fel cyfraniad pwysig i fywyd y wlad.

Cymerai ran bwysig yng ngwaith y Gymdeithas Genhadol a'r Gymdeithas Feiblaidd, ac yr oedd yn ddirwestwr pybyr. Yn 1834-5 ef oedd ysgrifennydd y mudiad i ddileu dyled capelau'r Annibynwyr yng ngogledd Cymru. Yn 1839 bu dadl enwog rhyngddo ef a'r **Dr. Lewis Edwards**, Bala, ar natur Eglwys. Safai 'S.R.' dros ryddid y gynulleidfa unigol, yn erbyn canoli awdurdod. Bu 'S.R.' yn Annibynnwr manwl ar hyd ei oes; ofnai'r mudiad i sicrhau Undeb yr Annibynwyr yn 1872. Ar yr un tir, bod rhyddid yr unigolyn mewn perygl, gwrthwynebai undebau llafur mewn diwydiant. Yn 1843 cychwynnodd *Y Cronicle*, cylchgrawn misol 1½g. a ddaeth yn boblogaidd ar unwaith. Honnai ef ei hun fod dros filiwn o gopiau wedi eu gwerthu mewn 12 mlynedd. Âr cylchgrawn hwn, daeth 'S.R.' yr amlycaf ymhlith Radicaliaid Cymru. Fel llawer o'i gyd-oeswyr, protestiodd yn gryf yn erbyn adroddiad y comisiwn addysg yn 1847, a pharhaodd drwy ei oes i gefnogi'r egwyddor wirfoddol mewn addysg, hyd yn oed ar ôl Deddf 1870. Yr oedd yn heddwchwr digymrodedd, a rhwng 1828 a 1834 darlithiodd lawer dros y Gymdeithas Heddwch. Yn 1850 yr oedd yn gynrychiolydd yn y gynhadledd heddwch gyd-wladol yn Frankfurt. Condemniodd ryfel y Crimea, ac imperialaeth Disraeli wedi hynny. Gwrthwynebai ddiennod (a weinyddid am amryw droseddau y pryd hynny) a dadleuodd dros liniaru disgyblaeth yn y fyddin a'r ysgolion. Condemniodd hefyd yr elfennau ymladdgar ym mudiadau 'Beca' a Siartiaeth, er ei fod yn gefnogol i ymestyn y bleidlais. Ef oedd un o'r rhai cyntaf dros roddi'r bleidlais i ferched.

Oherwydd yr annealltwriaeth parhaus rhwng tenantiaid y Diosg a stiward y stad, penderfynodd 'S.R.' ymfudo i America. Hwylodd am Tennessee, 6 Mai 1857, at ei frawd, '**Gruffydd Rhisiart**,' a aethai yno y flwyddyn gynt. Ond buan y gwelwyd iddynt gael eu twyllo gan y goruchwylwyr tir yno. Aeth pethau'n waeth pan ddaeth Rhyfel Cartref America, 1861-5. Am iddo wrthod cyfiawnhau rhyfel, hyd yn oed i ryddhau'r caethion, drwgdybid ef gan y ddwyblaid. Enllibwyd ef yn y Wasg gartref, ac yn *Y Drych* (Americanaidd). Bu mewn perygl am ei fywyd, a hefyd yn bur wael ei iechyd yn Hydref-Tachwedd 1864. Ymhen tair blynedd dychwelodd i Gymru, ac ymsefydlu yng Nghonwy. Ym Mawrth 1868, cafodd £1,245 yn dysteb gyhoeddus a gyfrannwyd gan ryw 14,000 o bobl. Aeth ar ymweliad byr i America yn 1870 i werthu ei eiddo yno.

Erbyn hynny yr oedd llawer o'r gwelliannau y bu'n ymladd drostynt wedi eu sicrhau. Daliodd i ddadlau yn erbyn yr undebau llafur, a chymorth llywodraeth mewn addysg, ond gwanhau yr oedd ei ddylanwad. Amhoblogaidd hefyd oedd ei ddadleuon yn erbyn y tugel ('balot'), sef mai cynllun i'r llwfr ydoedd. Cymylwyd ei flynyddoedd olaf gan ymrsonau cecrus, a'r ddadl enwadol â **Michael D. Jones**. Ond yn 1883 derbyniodd arwydd bellach o barch y cyhoedd drwy dysteb o £400, yn cynnwys £50 yn rhodd gan y Llywodraeth, am ei ymdrechion maith dros y llythyr ceiniog. Bu farw 24 Medi 1885, a chladdwyd ef yng Nghonwy. Yr oedd yn ddi-briod.

Awdur

Y Parchedig Robert Ivor Parry, (1908 - 1975)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Y Gwydoniadur Cymreig (1889â€"96) (ail arg.), x, 791-9

Y Cronicl, Tachwedd 1885

Y Geninen, 1891-3, 1897-9

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, v, 57-61

Album Aberhonddu â€¦ o'r flwyddyn 1755 hyd 1880 (1898), 84-6

E. Pan Jones, David Onllwyn Brace, *Cofiant y Tri Brawd o Llanbryn-mair a Conwy* (Bala 1892)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 623-6

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Adroddiad Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym Machynlleth, 1928, ix, 760-78

E. D. Jones, 'MSS. of Welsh-American Intrest,' yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, ii

R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Cyfrol 1, 1789-1843* (Caerdydd 1933), passim

Iorwerth C. Peate, *Beirniadaethau Eisteddfod Machynlleth* (1937), 176-81

Iorwerth C. Peate, *Hen Gapel Llanbryn-mair, 1739â€¦1939* (1939)

Iorwerth C. Peate, *Ym mhob pen â€¦ ysgrifau* (Aberystwyth 1948)

David Williams, *Cymru ac America = Wales and America* (Cardiff 1975)

W. Chalmers, 'A Forgotten Pioneer' yn *Bulletin of the Postal History Society*, rhif 43, 1948

Glanmor Williams, *Samuel Roberts, Llanbryn-mair* (Caerdydd 1950)

llawysgrifau yn Ll.G.C. (yn cynnwys dyddiaduron S. R., 1857-62, 1864)

Darllen Pellach

D. Ben Rees, *Samuel Roberts* (Gwasg Prifysgol Cymru 1987)

Erthygl Wicipedia: [Samuel Roberts](#)

Delweddau

LIGC: [Samuel Roberts, Llanbryn-mair](#)

Hugh Humphreys, [Samuel Roberts](#)

Hugh Humphreys, [SR](#)

Hugh Humphreys, [SR](#)

Thomas Edge, [Revd. Samuel Roberts, "S.R."](#)

John Thomas, [Rev. Samuel Roberts, "S.R."](#)

John Thomas, [Rev. Samuel Roberts, "S.R."](#)

John Thomas, [Samuel Roberts](#)

LIGC: [Samuel Roberts, Llanbryn-mair postal reformer](#)

Alfred Ford Smith, [Samuel Roberts, Richard Roberts and John Roberts, of Llanbryn-mair](#)

Alfred Ford Smith, [Samuel Roberts, Richard Roberts and John Roberts, of Llanbryn-mair](#)

Day & Son, [Samuel Roberts](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Llawysgrifau S.R. a J.R.](#)

VIAF: [12149941](#)

Wikidata: [Q7412490](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

[Frannu](#)

Arddull APA

[x](#)

Parry, R. I., (1953). ROBERTS, SAMUEL ('S.R.': 1800 - 1885), gweinidog gyda'r Annibynwyr, golygydd, diwygiwr Radicalaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-SAM-1800>

[Cofrestru](#)

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government